

PWYLLGOR CYNLLUNIO
2 MAWRTH 2022

Cofnodion cyfarfod o bell Pwyllgor Cynllunio Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd ddydd Mercher, 2 Mawrth 2022.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd David Wisinger (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Mike Allport, Chris Bithell, Derek Butler, Chris Dolphin, Ian Dunbar, Veronica Gay, Gladys Healey, Patrick Heesom, Christine Jones, Richard Jones, Ted Palmer, Mike Peers, Neville Phillips ac Owen Thomas

HEFYD YN BRESENNOL: Roedd y Cynghorydd Carol Ellis yn bresennol fel Aelod lleol ar gyfer eitem 6.2 (063280) ar y Rhaglen.

YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorydd Richard Lloyd

HEFYD YN BRESENNOL: Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Rheolwr Gwasanaeth – Strategaeth, Rheolwr Gwasanaeth - Datblygu, Uwch Beiriannydd - Rheoli Datblygu Priffyrdd, Uwch Swyddogion Cynllunio, Cyfreithiwr a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

56. DATGAN CYSYLLTIAD

Dim.

57. SYLWADAU HWYR

Rhoddodd y Cadeirydd gyfle i'r Aelodau ddarllen y sylwadau hwyr a oedd wedi eu dosbarthu cyn y cyfarfod ac wedi eu hatodi i'r rhaglen ar wefan Cyngor Sir y Fflint:

<https://committeemeetings.flintshire.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=490&MId=4996&LLL=0>

58. COFNODION

Cadarnhawyd bod cofnodion drafft y cyfarfod a gynhaliwyd ar 2 Chwefror 2022 yn gofnod cywir, ar ôl i'r Cynghorwyr Ian Dunbar a Chris Bithell eu cynnig a'u heilio.

PENDERFYNWYD:

Derbyn y cofnodion fel cofnod cywir a phriodol.

59. EITEMAU I'W GOHIRIO

Dywedodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) nad oedd unrhyw eitemau wedi'u hargymhell i'w gohirio ond bod eitem 6.3 ar y Rhaglen wedi'i thynnu'n ôl gan yr ymgeisydd ar ôl cyhoeddi'r rhaglen.

60. ADRODDIADAU'R PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, YR AMGYLCHEDD A'R ECONOMI)

PENDERFYNWYD:

Cofnodi'r penderfyniadau fel y dangosir ar amserlen y Ceisiadau Cynllunio sydd wedi ei gynnwys fel atodiad.

61. AELODAU O'R CYHOEDD A'R WASG HEFYD YN BRESENNOL

Dim.

(Dechreuodd y cyfarfod am 1pm a gorffennodd am 3.05pm)

.....
Y Cadeirydd

Caiff cyfarfodydd y Pwyllgor Cynllunio eu gweddarlledu, a gellir eu gwyllo drwy ymweld â'r llyfrgell gweddarllediadau: <http://flintshire.public-i.tv/core/portal/home>

PWYLLGOR CYNLLUNIO AR 2 MAWRTH 2022

RHIF YR EITEM	CYNGOR TREF/ CYMUNED	SAFLE / CAIS	SYLWADAU TRYDYDD PARTI/ AELODAU LLEOL	PENDERFYNIAD
062863	Cyngor Cymuned Sealand	Cais Llawn - Datblygiad arfaethedig ar gyfer 4 o unedau bwyd a manwerthu dosbarth E(a) a E(b) a maes parcio cysylltiol ac arwyddion ar safle'r hen Westy Gateway to Wales, Garden City	<p>Darllenwyd datganiad o wrthwynebiad ar ran preswylwyr lleol, Mr a Mrs Cousins.</p> <p>Siaradodd y Cynghorydd Christine Jones, fel Aelod ward lleol, yn erbyn y cais.</p>	Gohirio'r cais, aros am adolygiad o drefniadau cludiant lorïau HGV mewn ymateb i bryderon gan Aelodau.
063280	Cyngor Tref Bwcle	Materion a Gadwyd yn Ôl - Codi 10 annedd a ffyrdd cysylltiedig, seilwaith a lleoedd parcio gan gynnwys manylion mynediad, ymddangosiad, tirlunio, cynllun a graddfa, ynghyd â chais i ollwng Amodau 1, 3, 4, 5, 6, 7, 8, 10, 11, 13 ac 14 o Ganiatâd Cynllunio Amlinellol Cyfeirnod 060811 yn Jubilee Villas, 80 Ffordd yr Wyddgrug, Bwcle	<p>Darllenwyd datganiad o wrthwynebiad ar ran preswylwyr lleol, Val Holland.</p> <p>Darllenwyd datganiad o gefnogaeth ar ran yr asiant.</p> <p>Siaradodd y Cynghorydd Carol Ellis, fel Aelod ward lleol, yn erbyn y cais.</p>	<p>Rhoi caniatâd cynllunio amodol yn unol ag argymhelliad y swyddog, yn amodol ar yr ymgeisydd yn arwyddo Cytundeb Cyfreithiol i ddarparu'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Sefydlu corff â chyfansoddiad priodol i fod yn gyfrifol am reoli a chynnal a chadw'r stryd breifat yn y dyfodol. • Cyfraniad ariannol tuag at wella'r ddarpariaeth chwarae leol. • Os na fydd cytundeb felly yn cael ei arwyddo cyn pen 3 mis ar ôl y dyddiad cymeradwyo, yna fe'i gwneir yn ofynnol i Swyddogion

RHIF YR EITEM	CYNGOR TREF/ CYMUNED	SAFLE / CAIS	SYLWADAU TRYDYDD PARTI/ AELODAU LLEOL	PENDERFYNIAD
				<p data-bbox="1601 384 2007 451">gael cymeradwyaeth ddirprwyedig i wrthod y cais.</p> <p data-bbox="1541 493 2018 600">Hefyd yn amodol ar amodau a osodwyd yn yr adroddiad gydag amodau ychwanegol fel a ganlyn:</p> <ul data-bbox="1554 643 1951 786" style="list-style-type: none"> <li data-bbox="1554 643 1951 710">• Cyflwyno Datganiad Dull Dymchwel. <li data-bbox="1554 719 1951 786">• Cyflwyno Cynllun Rheoli Gwasanaeth.